# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Date and Time

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 14EG HYDREF, 2015**

Lleoliad

**Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD: 6/10/15)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Jason Humphreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cyng. Gavin Buckley | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| David Mclean | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Peter Lunt Williams | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2015/16

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2015, fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL** 4 - 10

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 9 Mawrth 2016.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 4/3/15

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau'r Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi), David McLean (Buddiannau Perchnogion Tir) a Peter L. Williams (Sefydliad y Bâd Achub).

**1. TEYRNGED**

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Gwyn Davies, Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog a Mike Biggs, cyn Harbwr Feistr Porthmadog.

Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2014, fel rhai cywir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed triniaeth diheintio uwchfioled (UV) ym Mhorthmadog, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi anfon neges e-bost at Dŵr Cymru ar 10 Hydref 2014 ynglŷn â'r mater a derbyniwyd neges yn diolch am y sylwadau gan nodi nad oedd penderfyniad wedi ei wneud. Nododd y byddai'n cysylltu'n anffurfiol dros y ffôn efo Dŵr Cymru er mwyn derbyn diweddariad.

**4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

**a) Cod Diogelwch Harbyrau**

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y broses a ddilynir i sicrhau y cydymffurfir a'r Cod Diogelwch Harbyrau. Adroddwyd na dderbyniwyd pryderon gan aelodau'r Pwyllgor yng nghyswllt y cod. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau godi materion yng nghyswllt y cod ond nid oedd mater yn codi.

**b) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau**

Adroddwyd bod camau wedi eu cymryd i geisio cadarnhau cynrychiolaeth Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau. Nodwyd y cyflwynir Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 gerbron yr Aelod Cabinet – Economi i gadarnhau cynrychiolaeth ar y Pwyllgor hwn.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed sylwedydd y Pwyllgor hwn ar y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau eraill, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n hysbysu'r aelod o'r sylwedydd.

**c) Marchnata**

Nododd aelod bod angen cynyddu cyhoeddusrwydd yng nghyswllt yr Harbwr, er enghraifft, drwy'r wefan neu ddefnyddio gwe-gamerâu.

Mewn ymateb, nodwyd nad oedd cyllideb ar gyfer marchnata ond rhoddir hysbysebion yng nghylchgrawn 'Practical Boat Owner' (PBO). Ychwanegwyd bod lleihad yn y niferoedd yn holl harbyrau Gwynedd yn ogystal â Chymru yn gyffredinol ond gobeithir y byddai'r dyfroedd gwych sydd yng Ngwynedd yn denu pobl yma.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed Plas Heli ym Mhwllheli, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ffyddiog y byddai'r datblygiad cyffrous yma yn creu cyfleoedd ar gyfer yr harbyrau eraill yn ogystal â buddion i'r ardal yn ehangach.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n cysylltu efo'r Uned Marchnata yn yr Adran Economi a Chymuned yng nghyswllt y cyfleoedd marchnata posib ond gan bwysleisio bod pwysau cyllidebol ar draws y Cyngor.

**ch) Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd bod y cymhorthion mordwyo yn y mannau priodol a'r llusernau yn gweithio ac o'r herwydd nid oedd rhybudd i forwyr yn weithredol.

Tynnwyd sylw mai tua 2 flynedd o waith oedd ar ôl yng Nghwch y Dwyfor. Nodwyd, wedi ei chyfnod ddod i ben, y bwriedir defnyddio contractwyr allanol i gwblhau'r gwaith gan nad oedd cyllid ar gyfer cwch newydd.

Nododd aelod y dylid edrych i mewn i'r opsiwn o lesu cwch o'r fath. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr asesir yr opsiynau ac adroddir i'r Pwyllgor pryd cyfyd y sefyllfa.

Adroddwyd yr ail-osodir bwiau parth traeth Morfa Bychan yn ystod mis Mai a bod disgwyl byddent oll ar eu safle erbyn Gŵyl y Banc cyntaf ym mis Mai.

Rhoddwyd diweddariad o ran niferoedd angorfeydd parhaol gan dynnu sylw bod 109 unigolyn yn parhau yn yr harbwr gyda photensial o 9 cwsmer newydd. Nodwyd bod un cwch yn suddo'n barhaol felly cymerwyd camau i roi rhybudd 21 diwrnod i berchennog y cwch ei symud cyn cymryd camau i waredu'r cwch.

Adroddwyd y parheir i orfodi lansio cychod o'r safle lansio sydd wedi ei leoli ger prif fynedfa traeth Morfa Bychan yn hytrach na Chwt Powdwr er sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr.

**d) Ystadegau**

Adroddwyd bod y sefyllfa o ran niferoedd cychod yn gyson a'r tuedd yn yr holl harbyrau ac y gobeithir o ganlyniad i brisiau tanwydd yn disgyn y byddai mwy o unigolion yn dod i'r harbwr. Ychwanegwyd y gohebwyd efo 3,000 o unigolion yng nghyswllt yr harbwr gan ddefnyddio dull electroneg ar gyfer 75% ohonynt er mwyn lleihau costau.

**dd) Cyllidebau**

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y gyllideb hyd at ddiwedd Chwefror 2015, gan nodi bod gorwariant ar gyflenwadau ac y rhagwelwyd cynnydd pellach.

Ychwanegwyd y rhagwelir tanwariant o oddeutu £9,000 o dan gostau staff erbyn diwedd Mawrth.

Nodwyd y rhagwelir tanwariant o oddeutu £15,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol ac efallai y gwneir benthyciad dros dro i'r harbyrau eraill.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr incwm o £9,237.45 a dderbyniwyd hyd at ddiwedd Chwefror yn y peiriant talu ac arddangos ym maes parcio Swyddfa'r Harbwr yn cyfrannu at darged incwm yr harbwr.

**e) Ffioedd 2015/16**

Adroddwyd bod ffioedd 2015/16 o gymharu â ffioedd 2014/15 wedi eu cynyddu yn unol â chwyddiant.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed ffi mynediad cerbydau i Draeth Morfa Bychan a Maes Parcio Machroes, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ofynnol i godir ffi yn unol â chwyddiant ac nad oedd cynnydd sylweddol wedi bod yn y ffi ers rhai blynyddoedd. Tynnwyd sylw bod y ffi ar gyfer tocyn tymhorol parcio am 2015/16 yn aros yr un fath.

Holodd aelod os oedd y Gwasanaeth Morwrol wedi ystyried cyflwyno gwasanaeth taliadau digyswllt. Mewn ymateb, nodwyd bod angen moderneiddio'r drefn o gymryd arian ac y gohebir efo Uwch Swyddog Incwm y Cyngor yng nghyswllt gosod peiriannau talu efo cerdyn yn yr harbwr ac efallai ar y traethau.

**f) Staff Harbwr**

Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa staffio'r harbwr. Nodwyd bod Arthur Jones wedi ei benodi yn Uwch Swyddog Harbyrau. Eglurwyd y byddai wedi ei leoli yn Swyddfa Harbwr Porthmadog ond yn cynorthwyo yn Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw hefyd.

Llongyfarchwyd Malcolm Humphreys ar gael ei benodi yn Harbwr Feistr ar gyfnod secondiad a dymunwyd yn dda iddo.

Nodwyd y cynhelir cyfweliadau mewn pythefnos ar gyfer penodi i'r swydd Cymhorthydd Harbwr Porthmadog am y cyfnod o fis Ebrill i fis Medi gyda'r unigolyn a benodir i'r swydd yn unol â'r arferiad blynyddol yn cael ei leoli ar Draeth Morfa Bychan.

**ff) Cynnal a Chadw**

Manylodd yr Harbwr Feistr ar raglen waith cynnal a chadw'r Gwanwyn.

**5. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 14 Hydref, 2015 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth, 2015.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.35pm a daeth i ben am 6.30pm

Eitem 7

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee*

***14 Hydref / October 2015***

***Crynodeb o'r eitemau i'w trafod – Summary of items for discussion.***

1. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

- Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code
- Materion Iechyd a Diogelwch / Health and Safety Issues
- Ymgynghoriad Cenedlaethol / National Consultation

***https://www.gov.uk/government/consultations/harbour-closure-and-pilotage-function-removal-orders-draft-guidance***

- Ymgynghoriad 'Gorchymyn Diddymu Pwrpas Peilot Llonga / Consultation on the Removal of Pilotage Orders

2. ***Cyllidebau Harbyrau / Harbour Budgets***

- Cyllidebau Terfynol 2014/15 Final Account
- Targedau Cyllideb Cyfredol 2015/16 Current Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Ddiwedd Medi / Current Expenditure and Income to end of September
- Ymgynghoriad Ffioedd Angorfeydd 2016 Fees and Charges Consultation

3. ***Staff Harbwr / Harbour Staff***

- Adnoddau Staff / Staffing Resources
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gaeaf / Winter Maintenance Works Programme

4. ***Mordwyo ac Angorfeydd Navigation and Moorings***

- Rheolaeth, Rheoliadau a Cofrestru Badau Dŵr Personol a Cwch Pŵer / Personal Watercraft and Powerboat Management, Regulations and Registration
- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal a Chadw Angorfeydd / Mooring Maintenace
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections

5. ***Cyflenwad Disel Coch / Red Diesel provision***

- Addasu capasiti cyflenwad disel coch / Change of red diesel capacity
- Ansawdd a manyleb tanwydd / Quality and specification of fuel

6. ***Llwyddiannau a Digwyddiadau / Achievements and Events***

7. ***Ystadegau Morwrol / Maritime Unit Statistics***

- Angorfeydd Harbwr 2015 / Harbour Mooring 2015
- Angorfeydd Harbyrau Eraill / Other Harbour Moorings
- Ystadegau Cychod Cyffredinol / General Boat Statistics

**Adroddiad Harbwr Porthmadog**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15**

| | Cyllideb 2014-15 | Cyfrifon Terfynol 2014-15 | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 42,120 | £32,135 | -9,985 |
| Hyfforddiant | 0 | £0 | 0 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 920 | £274 | -646 |
| Amrywiol Eraill | 460 | £260 | -200 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw | 24,240 | £650 | -23,590 |
| Offer | 0 | £38 | 38 |
| Contractwyr | 0 | £0 | 0 |
| Ynni | 1,270 | -£608 | -1,878 |
| Trethi | 3,410 | £3,406 | -4 |
| Dwr | 210 | £246 | 36 |
| Lês yr Arfordir | 0 | £0 | 0 |
| Glanhau | 0 | £147 | 147 |
| Casglu Sbwriel | 870 | £1,533 | 663 |
| Yswiriant Adeiladau | 610 | £89 | -521 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 620 | £366 | -254 |
| Costau Teithio | 60 | £64 | 4 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 5,110 | £12,584 | 7,474 |
| Arolygiadau Tanfor | 3,660 | £0 | -3,660 |
| Arwyddion | 0 | £280 | 280 |
| Cynnal Cychod | 0 | £2,530 | 2,530 |
| Banerau | 0 | £58 | 58 |
| Gwasanaethu'r Angorfeydd | 0 | £715 | 715 |
| Ffioedd gan gynnwys Ymgynghorwyr | 0 | £400 | 400 |
| Trwyddedau | 150 | £150 | 0 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 1,210 | £835 | -375 |
| Amrywiol | 380 | £27 | -353 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 7,837 | £7,837 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **93,137** | **£64,015** | **-29,122** |
| | | | |
| Incwm | | | |
| Ffioedd | -79,450 | -£79,604 | -154 |
| Rhenti | 0 | £0 | 0 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | £0 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-79,450** | **-£79,604** | **-154** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **13,687** | **-£15,589** | **-29,276** |

**Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15**

| | Cyllideb Terfynol 2014-15 £ | Cyfrifon Terfynol 2014-15 £ | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 170,690 | 129,566 | -41,124 |
| Hyfforddiant | 0 | 499 | 499 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 3,210 | 1,108 | -2,102 |
| Amrywiol Eraill | 2,250 | 1,607 | -643 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw | 62,510 | 9,247 | -53,263 |
| Offer | 0 | 818 | 818 |
| Contractwyr | 0 | 4,882 | 4,882 |
| Ynni | 7,110 | 3,810 | -3,300 |
| Trethi | 16,850 | 16,843 | -7 |
| Dwr | 2,270 | 2,970 | 700 |
| Lês yr Arfordir | 4,330 | 1,100 | -3,230 |
| Glanhau | 2,630 | 2,942 | 312 |
| Casglu Sbwriel | 2,420 | 3,629 | 1,209 |
| Yswiriant Adeiladau | 2,970 | 517 | -2,453 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 2,460 | 608 | -1,852 |
| Costau Teithio | 510 | 64 | -446 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 20,390 | 26,710 | 6,320 |
| Arolygiadau Tanfor | 7,010 | 1,240 | -5,770 |
| Arwyddion | 0 | 1,030 | 1,030 |
| Cynnal Cychod | 3,000 | 3,525 | 525 |
| Banerau | 0 | 263 | 263 |
| Gwasanaethu'r Angorfeydd | 0 | 4,847 | 4,847 |
| Ffioedd gan gynnwys Ymgynghorwyr | 0 | 25,331 | 25,331 |
| Trwyddedau | 600 | 300 | -300 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 5,140 | 4,685 | -455 |
| Amrywiol | 1,460 | 4,230 | 2,770 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 31,820 | 31,820 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **349,630** | **284,191** | **-65,439** |
| | | | |
| Incwm | | | |
| Ffioedd | -220,490 | -186,252 | 34,238 |
| Rhenti | -15,270 | -15,441 | -171 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | -18,504 | -18,504 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-235,760** | **-220,196** | **15,564** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **113,870** | **63,994** | **-49,876** |

**Prif Wahaniaethau**

**Gweithwyr - costau cyflogaeth - tanwario (£41,124))**

Tanwariant yn bennaf oherwydd swyddi gwag a trosiant staff. Darpariaeth yn y gyllideb am 6.5 swydd llawn amser. Y gwasanaeth wedi rhewi rhai swyddi i gwrdd a bwlch yn y targedau incwm yn y Gwasanaeth Morwrol. Tanwariant wedi golygu fod staff wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Harbwrfeistr newydd wedi ei gyflogi yn Ionawr 2015.

**Adeiladau - cynnal a chadw - tanwario (£53,263)**

Cynnal a Chadw Adeiladau o dan reolaeth yr Adran Eiddo wedi tanwario £14,727. Gweddill o'r tanwariant,sef £38,536 yn ariannu diffyg incwm yn yr Harbyrau ynghyd a gwariant unwaith ac am byth ar bennawdau eraill yn ystod y flwyddyn.

**Cyflenwadau a Gwasnaethau - Ffioedd a Ffioedd Ymgynghorwyr gorwario £25,331**

Gwaith wedi ei gomisiynu i gwmni ARUP ar Strategaeth Carthu Harbwr Pwllheli - cyfraniad o Gronfa yr Adran yn cyfranu £18,504 tuag at y costau.

**Incwm - Ffioedd gorwario £34,238**

Diffyg incwm yn y ffioedd angorfeydd yn 2014-215 yn erbyn targed o £220,490

**DG53** **Harbwr Porthmadog**

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB |
|---|---|---|---|
| Cefnogaeth Canolog | 6699 | Ad-Daliadau Canolog (Cyllideb) | 6,320 |
| | | Swm: | **6,320** |
| Costau Cyfalaf | 6801 | Dibrisiant (W9601) | 160 |
| | | Swm: | **160** |
| Eiddo | 1000 | Cynnal & Chadw - Uned Eiddo | 5,490 |
| | 1200 | Cynnal A Chadw Adrannau | 13,290 |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol | 5,620 |
| | 1510 | Trydan | 1,240 |
| | 1710 | Trethi Cyffredinol | 3,470 |
| | 1730 | Dwr - Mesurydd | 210 |
| | 1780 | Ad-Yswiriant Adeiladau | 560 |
| | 1845 | Casglu Sbwriel-Preifat | 990 |
| | | Swm: | **30,870** |
| Gwasanaethau A Chyflenwadau | 3100 | Offer A Chelfi-Gweithredol | 4,570 |
| | 3183 | Cychod - Pryniant A C&Ch | 0 |
| | 3801 | Lifrau Staff | 570 |
| | 3939 | Defnyddiau Swyddfa | 370 |
| | 4145 | Is-Gontractwyr | 3,690 |
| | 4152 | Ffioedd Archwilio | 0 |
| | 4201 | Postio A Chludo Tal U/Gyrchol | 110 |
| | 4210 | Teleffon | 0 |
| | 4220 | Teleffonau Symudol | 100 |
| | 4263 | Radio Symudol-Trwydded | 150 |
| | 4852 | Ad-Yswir Colled Incwm/Rhent | 30 |
| | 4890 | Ad-Yswiriant Amrywiol | 680 |
| | | Swm: | **10,270** |
| Gweithwyr | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 33,410 |
| | 0150 | Gweithwyr Llaw | 0 |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 1,630 |
| | 0250 | Gweithwyr Llaw | 0 |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred | 7,490 |
| | 0350 | Gweithwyr Llaw | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 0611 | Pensiwn/Gwylia Di-Dal | 40 |
| | 0709 | Tanysg I Gyrff Proffesiynol | 100 |
| | 0731 | Lwfans Teliffon | 330 |
| | 0990 | Ad-Yswiriant Atebolrwydd | 930 |
| | | Swm: | **43,930** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm | 7983 | Gwerthu-Petrol/Diesel | (400) |
| | 8231 | Angorfeydd Parhaol | (30,840) |
| | 8232 | Angorfeydd I Ymwelwyr | (2,380) |
| | 8233 | Tollau Harbwr | (42,330) |
| | 8234 | Lansio Cwch Power | (4,310) |
| | 8237 | Lansio Jet Ski | 0 |
| | 8241 | Maes Parcio | 0 |
| | 9597 | Credyd Pensiynau(*6497) | (1,430) |
| | | Swm: | **(81,690)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth | 2100 | Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir | 510 |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol | 60 |
| | | Swm: | **570** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Swm: | **10,430** |

# *Harbwr Porthmadog Harbour*
# *2016/17*

| | 2015-16 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Lleol Local Ex. VAT 1%** | **Eraill Others Ex.VAT 1%** | **Lleol Local Ex. VAT 1%** | **Eraill Others Ex.VAT 1%** | |
| Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch) | **32.38** | **33.66** | **32.70** | **34.00** | Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels) |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1 | **318.24** | **392.37** | **321.42** | **396.29** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2 | **296.50** | **372.80** | **299.47** | **376.53** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3 | **274.74** | **348.86** | **277.49** | **352.35** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1 | **286.17** | **359.74** | **289.03** | **363.34** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2 | **264.41** | **337.99** | **267.05** | **341.13** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3 | **242.66** | **318.41** | **245.09** | **321.59** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1 | **186.21** | **230.75** | **188.07** | **233.06** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3 | **142.71** | **187.25** | **144.14** | **189.12** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest | **42.84** | **43.70** | **44.14** | **44.14** | Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest |
| | | | | | |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | **5.00** | **-** | **5.00** | **-** | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | **-** | **6.67** | **-** | **6.67** | All Other Visiting Vessels |
| | | | | | |
| ***Ardal 4 Borth-y-Gest*** | | | | | ***Area 4 Borth-y-Gest*** |
| Pris y fedr am flwyddyn Angorfeydd ar gael i rhai sydd yn breswyl yn barhaol, ac yn llawn amser yng Ngwynedd | **18.70** | **33.66** | **18.89** | **34.00** | Price per meter per annum Mooring fees available for individuals who reside in Gwynedd permanently and full time |
| | | | | | |
| Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod | **0.65** | **0.65** | **0.66** | **0.66** | Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day |
| | | | | | |
| Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr | **1,418.59** | **-** | **1,432.78** | **-** | Park and Launch License – max 50 vessels |
| Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau | **-** | **-** | | **-** | Launching fees – as per beach launching fees |
| Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr | **150.10** | **-** | **151.60** | **-** | Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring (Discretionary) |



DRAFT